Gwiriad Manwl gan Wirio'r Rhestr Gwahardd Gweithio gyda Phlant ac Oedolion

YN ATEBOL I: Arweinydd Gwaith Cymdeithasol – Mike Logan

ASESIAD O'R GYMRAEG: Sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

DIOGELU:

Mae Diogelu ac Amddiffyn Plant ac Oedolion yn flaenoriaethau allweddol i'r Cyngor. Ein nod yw cefnogi plant ac oedolion sydd mewn perygl i fod mor ddiogel ag y gallant ac i gyflawni eu potensial. Mae holl weithwyr a gwirfoddolwyr y Cyngor yn gyfrifol am chwarae rhan yng ngwaith lles, diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl. Bydd yr holl weithwyr a gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi i'r lefel briodol o ddiogelu ac mae ganddynt ddyletswydd i gyflawni eu cyfrifoldebau personol dros ddiogelu.

Gwasanaeth Integredig Gogledd Sir Fynwy: Pwy ydym ni?

Ein Pwrpas:

Mae Parc Mardy yn ganolfan adnoddau gofal cymdeithasol ac iechyd sydd yn darparu ystod eang o gymorth i bobl sydd yn byw yn Y Fenni a'r ardaloedd cyfagos. Mae'r bobl sydd yn gweithio ac yn gwirfoddoli ym Mharc Mardy yn grŵp amrywiol, ond hefyd yn grŵp integredig o bobl, sydd yn anelu i:

'Helpu pobl i fyw eu bywydau eu hunain'

Rydym yn gwneud hyn drwy ddarparu gwybodaeth a chyingor ar sut i aros yn ddiogel a'n iachus, drwy gydlyn ystod o gyfleoedd i chwarae rhan, drwy hwyluso grwpiau a chynnal digwyddiadau.

Rydym yn cynnig gwasanaethau gofal canolig i gefnogi pobl yn y tymor byr a gofalu parhaus yn y cartref ar gyfer y sawl sydd angen gwasanaethau mwy hirdymor.

Rydym yn datblygu llwybr gofal diwedd oes gwell a chyson.

Mae'r tîm yn cynnwys ystod o ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol a gweithwyr cymorth ac rydym yn chwilio am arweinydd angerddol, ymroddedig, dygn i arwain ein gwasanaethau cymdeithasol er mwyn ein helpu ni ddarparu a datblygu llwybr iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant ym Mharc Mardy. Rhywun sydd yn cael ei yrru gan y dyhead i sicrhau bod pobl wrth wraidd ein hymyriadau ac yn hwyluso hyn drwy weithio integredig yn ei ffurf ehangach.

Rôl y Tîm Arwain ym Mharc Mardy yw

- Ymrymuso'r tîm
- Darparu eglurder o ran pwrpas y tîm a'n ffocysu ar hyn sydd yn bwysig; yn sicrhau bod y person yn cael ei gynnwys, yn arwain ac wrth wraidd pob dim
- Yn arwain drwy esiamp
- Yn darparu gwybodaeth eglur a chyson i gefnogi'r tîm i wneud eu penderfyniadau eu hunain
- Yn magu hyder ac yn hyrwyddo bod penderfyniadau yn cael eu gwneud gan y sawl sydd yn y sefyllfa orau i arwain.

Y gwerthoedd sydd yn ein gyrru ein hunain a'n gilydd:

- Rydym yn parchu rôl ein gilydd
- Rydym yn garedig wrth ein gilydd
- Rydym yn dosturiol ac rydym yn gofalu
- Rydym yn fudiad onest ac sydd yn dysgu
- Rydym yn hyrwyddo cyfrifoldebau personol
- Rydym yn gweithio ar y cyd – gan fanteisio ar ddoethineb pawb. ON: mae hyn yn rhywbeth cynradd, nid eilaidd.

Yr egwyddorion sydd yn sylfaen i'n practis

- Nid oes y fath beth â methu, dim ond dysgu
- Mae perthynas yn holl bwysig ac yn gyrru sut y mae pobl yn chwarae rhan
- Dylid cynnal sgysiau wyneb yn wyneb yn gyntaf – dim atgyfeiriadau a chyfyngu'r defnydd o e-byst
- Rydym yn greadigol ac arloesol
- Rydym yn cefnogi pobl i fyw; nid bodoli'n unig

- Rydym ond yn darparu ein gwasanaethau gorau posib
- Mae herio adeiladol yn cael ei groesawu bob tro
- Rydym yn rhagweithiol, nid yn ymateb i bethau
- Rydym yn ymwybodol o'r blaenoriaethau gwahanol mewn timau
- Rydym yn annog ac yn cefnogi cymryd risgiau mewn modd positif
- Rydym yn defnyddio'r holl adnoddau sydd gennym wrth lawn – fel un tîm
- Rydym yn gweithredu ar gyflymder ac ar frys
- Pobl – nid systemau – sydd yn ein gyrru

Pwrpas y Rôl hon

Yn ddirprwy arweinydd gwaith cymdeithasol dros dro ar gyfer Gwasanaethau Integredig Gogledd Sir Fynwy

Cefnogi a dirprwyo ar gyfer rheoli a datblygu tîm o weithwyr cymdeithasol ac aseswyr gofal cymdeithasol.

Datblygu'r Gwasanaeth yn Barhaus

Cynnal archwiliad o'r practis ar draws y tîm integredig a fydd yn pennu:

- y meysydd gwaith sydd angen arbenigedd proffesiynol
- y meysydd gwaith sydd angen sgiliau, gwybodaeth a phrofiad mwy cyffredinol
- y meini prawf ar gyfer clustnodi gwaith ar draws y gwasanaeth

Yn casglu ac yn dadansoddi'r dystiolaeth o ran y galw ar draws gwasanaethau integredig ac yn llunio adroddiad yn amlinellu ar gyfer strwythur y gweithlu yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio adnoddau yn unol gyda'r adegau prysur a llai prysur o ran y galw.

Yn sefydlu dulliau tuag at ddarparu gwaith cymdeithasol sydd wedi ei rag-gynllunio drwy fod yn bresennol a'n hygyrch yn y gymuned leol.

Yn sefydlu perthynas bositif a rhagweithiol a llwybrau gofal gyda phartneriaid Neuadd Nevill.

Disgwyliadau'r Rheolwr o'r Rôl hon

Byddwn yn gweithio yn unol gyda'r egwyddorion a'r dulliau sydd wedi eu hamlinellu isod:

- Dull o gydlafurio ag eraill ac sydd yn seiliedig ar gryfderau. Bydd cynnwys eraill yn dilyn y broses asesu (cyf SSWBA) ac yn archwilio'r hierarchaeth o gymorth.
- Bydd pob aelod o'r tîm yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi, ei gydnabod, ei gefnogi ym mhob dim y mae'n gwneud ac yn deall eu lefelau o atebolrwydd a chyfrifoldeb o ran clustnodi, practis, rheoli achosion ac adolygu
- Llwyth achosion deinamig ac actif sydd yn ymateb i alw, brys a blaenoriaeth
- Grŵp cymorth i gymheiriaid yn hanfodol i'r tîm

- Bydd clustnodi yn seiliedig ar sgyrsiau. Yn gyffredinol, bydd clustnodi yn cael ei wneud drwy gyfrwng cyfarfodydd ond bydd achosion brys yn cael eu pennu drwy sgyrsiau 1:1.
- Bydd y deiliad swydd yn datblygu hunaniaeth o ran y tîm llwyth achosion sydd yn atebol am:
 - ✓ Cymhlethdod
 - ✓ Cynllun wrth gefn
 - ✓ Cefnogaeth
- Bydd y llwyth gwaith yn cefnogi'r aelod tîm i weithio yn unol â'r uchod. Dylent deimlo fod hyn yn medru cael ei reoli.
- Dylai'r gwaith geisio lleihau'r nifer o achosion sydd yn cael eu trosglwyddo o'r naill dîm i'r llall a dylai'r rolau adlewyrchu hyn. Bydd hyn yn cynnwys croesi rhwng gwaith therapi a gwaith cymdeithasol.
- Bydd cynnwys eraill yn seiliedig ar yr egwyddorion o osod y berthynas yn gyntaf, clywed llais y person a'r gofalwr, gan wrando a deall yr hyn sydd yn bwysig a'n cydlafurio af eraill.

Yn ddigon syml, rydym yn chwilio am arweinydd, a fydd yn arddangos ardderchowgrwydd mewn practis gwaith cymdeithasol ac yn medru dylanwadu ar gyfeiriad y gwasanaeth integredig ac ysbrydoli pobl gyda gweledigaeth am y dyfodol. Rhywun sydd yn medru cael gwared ar seilos proffesiynol, delio ag argyfyngau, cwynion a llawer o amwysedd. Bydd angen person dygn, sydd yn medru negodi datrysiad llwyddiannus ar draws ystod o sefyllfaoedd am amgylchiadau.

Yn benodol, mae'r rôl hon angen:

Cynorthwyo'r arweinydd gwaith cymdeithasol a'n dirprwyo gyda'r tasgau canlynol:

Gweithrediadau ac Arweinyddiaeth:

- Rheoli'r gweithwyr cymdeithasol a'r aseswyr gofal cymdeithasol o ddydd i ddydd
- Yn clustnodi gwaith ac yn sicrhau bod ymatebion priodol a chymesur a chanlyniadau personol effeithiol yn cael eu mynegi a'u cyflawni. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod pethau'n digwydd yn gyflym ac ar frys.
- Yn rheoli capasiti a seilwaith mewn ffordd sydd yn sicrhau bod adnoddau yn cael "helpu pobl i fyw eu bywydau eu hunain"
- Yn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r cyfrifoldebau cyfreithiol a'r polisïau a'r gweithdrefnau CSF/BIPAB o ran eich llwyth achosion (bach) a llwyth achosion y tîm.
- Yn cynnig canllaw i weithwyr cymdeithasol ac aseswyr gofal cymdeithasol sydd yn sicrhau arferion da, ac yn datblygu perthynas waith positif ag eraill
- Yn goruchwyllo yn rheolaidd ac yn adolygu perfformiad gweithwyr sydd yn bwrpasol ac yn gosod heriau priodol i wella practis a datblygiad personol.
- Sicrhau bod systemau yn eu lle ar gyfer rheoli perfformiad gwael ac yn hyderus yn gweithredu gweithdrefnau gallu a disgyblaeth pan fydd angen.
- Yn oruchwyllydd brwdfrydig ac egniol o fyfyrwyr sydd ar brofiad gwaith ac yn annog yr holl weithwyr cymdeithasol i ddod yn aseswyr practis
- Darparu hyfforddiant a mentora i fagu hyder ac awtonomi ar draws y gwasanaethau integredig

- Datblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau arbenigol er mwyn cefnogi'r tîm mewn meysydd gwaith cymhleth e.e. asesiadau budd gorau, asesiadau galluedd meddwl, diogelu a gofal cymhleth
- Cwblhau hyfforddiant Rheolwr Arweiniol Dynodedig Lefel 4 a'n gweithredu fel y DLM pan fydd angen ar y Tîm Gweithredu ac yn cefnogi ymatebion priodol ac amserol i bryderon diogelu
- Yn gyfrifol am reoli a defnyddio unrhyw adnoddau ariannol gydag aelodau eraill o'r tîm arwain
- Sefydlu dulliau gweithio o fewn y tîm gwaith cymdeithasol ac yn fwy cyffredinol lle y mae'r gwasanaethau comisiynu a'r ymroddiad ariannol i hyn yn cael ei wneud. Bydd hyn yn cynnwys dirprwyo rhai agweddau o'r cyfrifoldeb am y gyllideb i'r rhengflaen a sefydlu diwylliant o herio'n bositif, archwilio a chraffu sy'n cael ei arwain gennych chi yn eich rôl fel arweinydd ac aelodau o'r tîm (grŵp cymheiriaid sy'n craffu)

Datblygu a Chynnal Perthnasau ag Eraill:

- Gweithio mewn partneriaeth gyda'r holl bobl/timau perthnasol er mwyn sicrhau bod y bobl sydd wedi cysylltu yn medru darparu'r cymorth mwyaf effeithiol
- Gweithio ag arweinwyr eraill er mwyn sicrhau integreiddio a chydweithredu yn y ffurf ehangach, yn cael gward ar seilos proffesiynol a'n sicrhau bod y person yn parhau wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Yn rhan o'r tîm arwain, yn cefnogi datblygu Parc Mardy i ddod yn 'ganolfan ardderchowgrwydd' ar gyfer gwasanaethau llesiant, iechyd a chymorth gofal cymdeithasol
- Gweithio yn gynhwysol ac yn gydweithredol gyda chartrefi gofal er mwyn sicrhau'r ansawdd bywyd gorau i drigolion

Cyfathrebu:

- Cyfathrebu gyda phartneriaid, cydweithwyr a'r gymuned leol fel bod pobl yn eglur ynglŷn â rôl, pwrpas a swyddogaeth gwaith cymdeithasol o fewn y gwasanaeth integredig
- Helpu pobl i wneud synnwyr a dod o hyd i wasanaethau llesiant, llesiant, iechyd a chymorth gofal cymdeithasol
- Delio gyda sylwadau a chwynion a chynnal ymchwiliadau ar Lefel Un

Creu:

- Cymryd rhan weithgar yn datblygu llwybrau llesiant, iechyd a gofal cymdeithasol ym Mharc Mardy, gan gydlyn adnoddau gwaith cymdeithasol er mwyn medru helpu pobl i fynegi a'n sicrhau'r canlyniadau personol
- Rhoi cynnig ar ddulliau gwahanol sydd yn cynnig mwy o hygyrchedd i'r gymuned leol
- Datblygu arferion gorau newydd a chefnogi'r rhai cyfredol ar draws gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r tîm integredig ehangach yn unol gyda pholisïau a chanllawiau lleol a chenedlaethol

Gwneud Pethau'n Well: Perfformiad a Gwerthusiad

- Llunio adroddiadau yn amlygu llwyddiannau, heriau ac awgrymiadau ar gyfer datblygiad parhaus gan gynnwys cyfweiliadau gydag aelodau o'r gymuned, cefnogi gyrfaoedd
- Llunio adroddiadau ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd adnoddau er mwyn integreiddio gwasanaethau llesiant, iechyd a chymorth gofal cymdeithasol
- Gweithio gyda rheolwyr gwaith cymdeithasol a'r arweinwyr gwaith cymdeithasol eraill ar draws y sir er mwyn sicrhau cysondeb o ran datblygiadau a dulliau
- Datblygu ac ysgrifennu/diwygio polisiâu, gweithdrefnau ac arferion gwaith

Dyma'r hyn y mae modd i ni ddarparu i chi:

- Goruchwyliaeth reolaidd
- Mynediad at ystod o gyfleoedd hyfforddi
- Adolygiadau cyson gyda chydweithwyr er mwyn trafod cynnydd, datblygiad ac amcanion ar gyfer y dyfodol.
- Tîm deinamig o gydweithwyr sydd yn herio'r 'status quo' ac yn ceisio gwneud y pethau cywir
- Y cyfle i weithio mewn amgylchedd sydd yn newid gyda phobl debyg
- Y cyfle i fedru dylanwadu ar gyfeiriad datblygiad Gwasanaethau Integredig
- Y cyfle i fod ar flaen y gad o ran datblygu dulliau integredig sydd yn cael eu cydnabod yn genedlaethol, rhanbarthol ac yn lleol fel arferion gorau

Beth arall sydd angen i chi wybod.....Ein Gwerthoedd:

Gwaith tîm: Byddwn yn gweithio gyda chi a'ch partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan. Byddwn yn gwneud y gorau glas o'r syniadau a'r adnoddau sydd ar gael i sicrhau ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar ein pobl a'n lleoedd.

Tryloywder: Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan a dweud wrthym beth sy'n bwysig.

Hyblygrwydd: Rydym yn hyblyg, gan alluogi darparu'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

Tegwch: Rydym yn rhoi cyfleoedd i bobl a chymunedau i ffynnu. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson.

Caredigrwydd: Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb y gweithiwn gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthynas a'r cysylltiadau sydd gennym gyda'n gilydd wrth galon bob rhyngweithio.

A bydd y rôl hon yn gweithio gyda Sir Fynwy er mwyn cyflawni hyn.

Yn ychwanegol at hyn:

Mae'r holl weithwyr yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn gweithredu bob amser mewn ffordd sy'n gydnaws â Pholisi Cyfle Cyfartal Sir Fynwy yn eu meysydd o gyfrifoldeb ac fel rhan o'u hymddygiad cyffredinol.

Manyleb Person

Sut fyddwn yn gwybod os mai chi yw'r person cywir ar gyfer y rôl hon? Fel yr ymgeisydd llwyddiannus, byddwch wedi arddangos y canlynol:-

Gofynion		
Cymwysterau Gwybodaeth	1.1	Cymhwyster Gwaith Cymdeithasol proffesiynol
	1.2	Wedi cofrestru gyda chorff proffesiynol perthnasol
	1.3	Dealltwriaeth o'r dyletswyddau sydd yn y ddeddfwriaeth, polisiau a'r canllawiau practis ar gyfer gofal cymdeithasol ac iechyd
	1.4	Dealltwriaeth o ddiogelu mewn lleoliad cymunedol
Sgiliau/Gallu	2.1	Gallu i reoli cyflymder a chymhlethdod newid er mwyn medru darparu gwasanaeth gwaith cymdeithasol effeithiol a chynaliadwy
	2.2	Gallu i greu newid mewn gwasanaethau gwaith cymdeithasol ac ar draws y gwasanaethau integredig yn eu cyfanrwydd
	2.3	Yn medru rheoli pob agwedd o wasanaethau pobl yn unol gyda pholisiau a chanllawiau CSF a BIPAB e.e. recriwtio, absenoldeb
	2.4	Gallu i ddatblygu, gweithredu a goruchwyllo system gadarn ar gyfer rheoli cydweithwyr ym maes gwaith cymdeithasol gan gynnwys fframweithiau cymhwysedd, goruchwyllo a gwerthuso
	2.5	Yn medru ymdopi ag argyfyngau, gwrthdaro ac amwysedd
	2.6	Y gallu i ysgogi staff
	2.7	Yn medru hunan-fyfyrio a chofleidio dysgu o bob un sefyllfa wrth brofi ffyrdd newydd o weithio
	2.8	Y gallu i osod targedau gwaith personol a'n gweithio ar eich liwt eich hun er mwyn cwrdd â'r targedau yma
	2.9	Y gallu i ddadansoddi data er mwyn gwella'r gwasanaethau sydd yn cael eu darparu
	2.10	Y gallu i weithredu fel y rheolwr canolfan gostau dynodedig ar gyfer yr elfen gwaith cymdeithasol i'r gyllideb gwasanaethau integredig - yn cymeradwyo, monitro gwariant a'n sicrhau bod y cynlluniau adferiad wedi eu datblygu yn dda a bod goblygiadau ar y practis wedi eu hystyried



	2.11	Y gallu i weithredu fel y Rheolwr Arweiniol Dynodedig er mwyn diogelu'r bobl yr ydym yn cefnogi, eu gofalwyr a'ch cydweithwyr
	2.12	Y gallu i sefydlu diwylliant lle y mae modd herio, archwilio a chraffu'n bositif
	2.13	Sgiliau ardderchog yn rheoli pobl
	2.14	Sgiliau cyfathrebu hynod ddatblygedig
Rhinweddau	3.1	Sgiliau negodi a dylanwadu ardderchog
	3.2	Parodrwydd i roi cynnig ar syniadau, dulliau a modelau practis newydd drwy fwy o integreiddio a rhannu arbenigedd
	3.3	Ymroddiad at ddarparu'r practis proffesiynol gorau a darparu gwasanaethau safonol
	3.4	Ymroddiad at ddarparu'r hyn sydd yn bwysig i bobl a'u cymunedau
	3.5	Ymroddiad i sicrhau bod y person wrth wraidd pob un ymyrraeth
	3.6	Creadigrwydd ac arloesedd
Profiad	4.1	Egni, pendantrwydd a'n fodlon bwrw ati er mwyn sicrhau bod pethau'n digwydd
	4.2	Profiad o arwain yn effeithiol mewn amgylchedd sydd yn newid drwy'r amser
	4.3	Profiad rheoli gweithredol rhengflaen
Gofynion eraill	5.1	Profiad o ddatblygu a darparu'r practis gwaith cymdeithasol gorau mewn lleoliad cymunedol
	5.2	Y gallu i deithio ar hyd a lle'r ardal
	5.3	Dealltwriaeth glir o egwyddorion a phractis cyfle cyfartal ac ymroddiad i weithredu'r rhain mewn lleoliad cymunedol
At hyn:		
Ar gais y Rheolwr(wyr) Gwasanaethau Integredig, bydd angen ymgymryd â gweithgareddau sydd yn gyson gyda'r swydd-ddisgrifiad a phwrpas y rôl.		

- **Y Gymraeg yn Ddymunol**

Gall fod angen i chi ddysgu neu wella eich sgiliau presennol drwy fynychu hyfforddiant Cymraeg i staff a gyllidir gan y Cyngor. Gweithredir hyn os yw'r angen yn codi am sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer y swydd.

Os ydych angen unrhyw wybodaeth bellach am y rôl hon, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda: Mike Logan Ffôn: 07825 099130

Dyddiad Cau: 12pm ar 27ain Mai 2022

FFRAMWAITH SGILIAU YN Y GYMRAEG
LEFEL 1

Gall ddeall ymadroddion sylfaenol bob dydd os yw'r siaradwr yn siarad yn araf ac yn glir ac yn fodlon helpu. Gall gyflwyno ei hunan ac eraill a gall ofyn ac ateb cwestiynau am wybodaeth sylfaenol e.e. unigolyn yn gofyn am weld rhywun, ble mae cyfarfod xxx, toiled ac yn y blaen. Gall drosglwyddo galwadau ffôn, cyfleu neges fer neu wneud cais syml e.e. drwy e-bost.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddeall cwestiynau syml: lle mae cyfarfod xxx, pwy yw'r person y dymunant ei weld. Gall ddeall i bwy i drosglwyddo galwad ffôn ac yn y blaen. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ynganu enwau lleoedd ac enwau personol yn gywir. ➤ Gall gyfarch unigolion wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. ➤ Gall agor a chau sgwrs neu agor a chau cyfarfod. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddarllen brawddeg fer, e.e. arwyddion syml, cyfarwyddiadau syml, eitemau agenda, gwybodaeth syml ar ffurflenni. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall agor a chau neges e-bost neu lythyr. ➤ Gall ysgrifennu enwau personol, enwau lleoedd, teitlau swyddi. ➤ Gall ysgrifennu neges syml i gydweithiwr ar bapur neu e-bost e.e. mae hwn a hon wedi galw.

LEFEL 2

Gall ddeall brawddegau pan mae pobl yn siarad am sefyllfaoedd bob dydd, e.e. gwybodaeth bersonol a theuluol syml. Gall gynnal sgwrs sylfaenol gyda rhywun i gael neu gyfnewid gwybodaeth syml, e.e. trafod sut mae person yn teimlo; rhywbeth a ddigwyddodd; cynllun syml ar gyfer y dyfodol. Gall ysgrifennu a deall negeseuon mewn llythyrau neu negeseuon e-bost yn disgrifio materion cyfarwydd ac ysgrifennu mewn brawddegau byr.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddeall pan mae pobl yn siarad yn araf am sefyllfaoedd bob dydd e.e. rhoi gwybodaeth bersonol, siarad am beth fuont yn ei wneud, yr hyn yr hoffent ei wneud, sut y teimlant yn gyffredinol ➤ Gall ddeall pan mae pobl yn gofyn iddynt wneud rhywbeth 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall gyfathrebu gwybodaeth syml neu ofyn cwestiynau cyffredin, e.e. cael gwybodaeth gan unigolion. ➤ Gall ddefnyddio'r Gymraeg i gyrraedd a dangos empathi gydag unigolyn ond dim i gynnal yr holl sgwrs neu sesiwn yn y Gymraeg. ➤ Gall gynnal sgwrs fer gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml. ➤ Gall gyfrannu at gyfarfod ond bydd angen troi i'r Saesneg ar gyfer termau arbenigol. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddarllen negeseuon byr a rhai llythyrau neu negeseuon e-bost, e.e. rhai sy'n gwneud cais neu'n gofyn am gyfleu neges 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ysgrifennu neges fer at gydweithiwr yn gofyn cwestiwn, yn diolch iddo/iddi, esbonio rhywbeth e.e. amser a lle cyfarfod ➤ Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost byr i drefnu apwyntiad

LEFEL 3

Gall ddeall y prif bwyntiau pan mae unigolyn neu gydweithiwr yn siarad am bynciau cyfarwydd e.e. yn ystod sgwrs neu gyfarfod grŵp bach. Gall gynnal sgwrsiau estynedig gyda siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith bob dydd. Gall ddisgrifio profiadau a digwyddiadau a rhoi esboniadau am a rhesymau cryno am farnau a chynlluniau. Gall ddarllen erthyglau, llythyrau neu negeseuon e-bost am bynciau cyffredinol. Gall ysgrifennu llythyrau neu negeseuon e-bost am y rhan fwyaf o bynciau, e.e. yn gofyn am rywbeth; rhoi gwybodaeth; gwahodd rhywun neu drefnu digwyddiad.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddeall unigolion a chydweithwyr wrth gyfnewid gwybodaeth neu drafod cynlluniau, os yw'r pwnc yn gyfarwydd. ➤ Gall ddeall trafodaeth mewn cyfarfod os yw'r pwnc yn gyfarwydd. ➤ Gall ddeall unigolion a chydweithwyr mewn sefyllfa gyfarwydd neu mewn sgwrs bob dydd. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall gymryd rhan yn y rhan fwyaf o sgwrsiau gyda chydweithwyr am waith a chynlluniau os nad yw'r eirfa yn rhy dechnegol. ➤ Gall gynnal sgwrs gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml. ➤ Gall gyfrannu at gyfarfod ond gall fod angen troi i'r Saesneg am dermau arbenigol. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddeall y rhan fwyaf o negeseuon e-bost neu lythyrau'n ymwneud â gwaith dydd i ddydd. ➤ Gall ddyfalu ystyr gair yn seiliedig ar gyddestun os yw'r pwnc yn gyfarwydd. ➤ Gall ddarllen erthygl syml a rhwydd mewn papurau newydd neu fathau o ddeunydd ysgrifenedig mewn cylchgrawn. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost at unigolyn neu gydweithiwr am y rhan fwyaf o bynciau er mwyn gofyn am rywbeth; rhoi esboniad; disgrifio profiad neu sefyllfa; gwahodd pobl neu drefnu digwyddiad.

- Gall addasu cywair iaith i weddu i'r gynulleidfa.

LEFEL 4

Gall fel arfer ddilyn y rhan fwyaf o sgysiau neu drafodaethau, hyd yn oed ar bynciau anghyfarwydd. Gall siarad yn hyderus gyda siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith, a mynegi barn, cymryd rhan mewn trafodaeth a siarad yn helaeth am bynciau cyffredinol e.e. mewn cyfarfodydd neu sefyllfaoedd un-i-un gydag unigolion. Gall ddeall y rhan fwyaf o ohebiaeth, erthyglau papur newydd ac adroddiadau a fwriedir ar gyfer siaradwyr rhugl gyda chymorth adnoddau Cymraeg a gall fwrw golwg dros destunau hir i ganfod manylion. Gall lenwi ffurflenni ac ysgrifennu adroddiadau'n ymwneud â gwaith ac ymateb yn gywir.

DEALL

- Gall ddilyn y rhan fwyaf o sgysiau a thrafodaethau gydag unigolion neu gydweithwyr hyd yn oed os yw'r deunydd pwnc yn anghyfarwydd.

SIARAD

- Gall gyfrannu'n effeithlon at gyfarfodydd mewnol ac allanol mewn cyd-destun gwaith.
- Gall sgwrsio'n gysurus gydag unigolion a chyfnewid gwybodaeth fel sydd angen.
- Gall ddadlau dros ac yn erbyn achos penodol.
- Gall gadeirio cyfarfodydd ac ateb cwestiynau o'r gadair yn hyderus.

DARLLEN

- Gall ddarllen y rhan fwyaf ohebiaeth a bwrw golwg ar destunau hir i ganfod manylion.
- Gall ddeall y rhan fwyaf o erthyglau ac adroddiadau papur newydd gyda chymorth geiriadur.
- Gall ddeall testunau, os na ysgrifennwyd mewn dull ffurfiol iawn neu dafodieithol.

YSGRIFENNU

- Gall gynhyrchu gohebiaeth o bob math, adroddiadau byr, dogfennau a llenyddiaeth gyda chymorth offer cyfieithu Cymraeg e.e. Cysgair, Cysill.

LEFEL 5

Gall ddeall popeth a gaiff ei ddweud. Gall siarad yn helaeth am faterion cymhleth, gan gyflwyno gwybodaeth anodd a gall hwyluso a chrynhoi trafodaethau estynedig neu gymhleth. Gall grynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau (yn llafar ac yn ysgrifenedig) a'i chyflwyno mewn modd cydlynus. Gall fynegi ei hunan yn fyrfyr, rhugl ac yn fanwl, gan addasu'r iaith i weddu i'r gynulleidfa.

DEALL

- Gall ddilyn pob sgwrs a thrafodaeth gydag unigolion neu gydweithwyr.
- Gall ddeall amwysedd a naws iaith.

SIARAD

- Gall fynegi ei hunan yn fanwl, hyd yn oed wrth drafod materion cymhleth
- Gall addasu arddull a chywair yr iaith i weddu i'r gynulleidfa.

DARLLEN

- Gall ddarllen a deall bron bob testun ysgrifenedig heb anhawster, gan ddefnyddio geiriadur yn achlysurol.
- Gall ddarllen testunau hir i ganfod manylion perthnasol a gall ddeall y rhan fwyaf o fathau o ddeunydd ysgrifenedig.

YSGRIFENNU

- Gall ysgrifennu adroddiadau mewn arddull glir addas i'r darlennydd gyda chefnogaeth offer cymorth iaith electronig.
- Gall ysgrifennu Cymraeg ffurfiol neu anffurfiol yn ôl yr angen.
- Gall ysgrifennu ystod o ddogfennau yn gywir ac yn hyderus.